CYFLEOEDD CYNHADLEDD Y BLAID 2011

Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011, Llandudno: 8 -10 Medi

Cyfleoedd i'r sector cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yng Nghynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011 yn Venue Cymru, Llandudno

*Cyfarfodydd Ymylol *Stondinau *Arddangosfeydd *Prif gyfarfod ymylol *Llunio brand *Brecwast Busnes*Cinio'r Gynhadledd *Derbyniadau *Hysbysebu *Tocynnau Prif Sylwedyddion * Cyfleoedd i Noddi

plaidcymru.org

Cynnwys

T3 Cyflwyniad

T4 Gwybodaeth Gyffredinol

T9 Cynnal Arddangosfa a Ffurflen Archebu

T11 Cynnal Cyfarfod Ymylol Ffurflen Archebu

T13 Cynnal Prif Gyfarfod Ymylol a Ffurflen Archebu

T15 Cynnal Brecwast Busnes

T17 Hysbysebu a Ffurflen Archebu

T19 Statws Sylwedydd a Ffurflen Archebu

T21 Cinio Mawreddog y Gynhadledd

T23 Cyfleoedd Noddi

T24 Telerau & Amodau

CYFLWYNIAD

Pam dod i Gynhadledd Plaid Cymru?

Mae Cynadleddau Plaid Cymru yn rhoi cyfle i fudiadau fel eich un chi ddeall sut y mae'r Blaid yn datblygu polisi, cyfle i rwydweithio a chodi eich proffil gydag ymgyrchwyr y blaid, Aelodau Etholedig, ymgeiswyr ac arweinwyr.

Bu'r ymateb i Gynhadledd Wanwyn 2011 yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd yn gadarnhaol dros ben, ac yr ydym wedi defnyddio hyn i baratoi a chynllunio ymlaen at ein cynhadledd nesaf.

Eleni byddwn yn ddychwelyd i Venue Cymru yn Llandudno unwaith eto, un o'r canolfannau cynadledda gorau yng Nghymru sy'n gefndir gwych i ddatblygu polisi, cryfhau brand a phob math o gyfleoedd cynadledda.

Yn dilyn llwyddiant Cynhadleddau Flynyddol diweddar, bydd Cynhadledd Flynyddol 2011 eto yn ymestyn dros ddeuddydd llawn yn Neuadd y Gynhadledd, a hanner diwrnod wedi ei neilltuo i drafod polisi, seminarau, trafodaethau panel, sesiynau datblygu a llawer mwy. Byddwn hefyd yn parhau i ehangu ar hyn trwy gynnig profiadau newydd i gynrychiolwyr mudiadau a chynadleddwyr fel ei gilydd trwy hybu cyfryngau newydd, arloesi a dadleuon polisi ac ystyrlon ar faterion gwleidyddol llosg y dydd. Caiff pob Prif Sylwedydd a mudiad gyfle i gyfarfod yn unigol gydag aelod o'n Huned Genedlaethol Datblygu Polisi.

Gobeithio'n wir y byddwch yn penderfynu dod i gynhadledd y Blaid ym mis Medi, ac edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yno.

Ieuan Wyn Jones AC
Arweinydd, Plaid Cymru

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Cyfleoedd Masnachol

Croeso i'n Pecyn Gwybodaeth am y Gynhadledd i arddangoswyr, y sawl sy'n cynnal cyfarfodydd ymylol, hysbysebwyr, noddwyr a sylwebyddion, sydd yn cynnwys manylion am y cyfleoedd isod:

- Cynnal Arddangosfa / Stondin
- Cynnal Cyfarfod Ymylol
- Cynnal Prif Gyfarfod Ymylol
- Hysbysebu yn Llawlyfr y Gynhadledd
- Mynychu'r Gynhadledd fel Sylwebydd Arbennig
- Cyfleoedd i noddi

Dyddiadau ac amseroedd y Gynhadledd

- Eleni, mae'r Gynhadledd yn rhedeg o prynhawn dydd Iau 8 Medi i ddydd Sadwrn 10 Medi 2011.

- Dyma, yn fras, amseroedd y Gynhadledd: 9.30yb -4.30yh ar ddydd Gwener a Sadwrn, a 2.00yh 5.30yh ar ddydd Iau.

Nodwch

Gan y bydd Dydd Iau'r Gynhadledd yn canolbwyntio ar sesiynau trafod, dadleuon a cyfarfodydd ymylol yn unig, fe fydd stondinau arddangos ar gael ar dydd Gwener a Sadwrn y Gynhadledd. Mae croeso i arddangoswyr fynychu'r sesiynau Dydd Iau fel Sylwebyddion Arbennig.

Sicrhau eich lle

Mae'r lleoedd ar gyfer ystafelloedd cyfarfodydd ymylol a stondinau yn gyfyngedig iawn, felly archebwch eich lle yn gynnar rhag cael eich siomi.

Sut i archebu

Llenwch y ffurflen(ni) archebu a'u dychwelyd at Swyddfa Genedlaethol Plaid Cymru trwy e-bost, neu post i sylw Vici Jones, Trefnydd y Gynhadledd. Rhaid derbyn pob archeb erbyn **11eg Gorffennaf 2011**.

Talu

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw TAW wedi'i gynnwys yn y pris. Fe fyddwch yn cael eich anfonebu'n brydlon ar ôl archebu. Mae'n rhaid derbyn y tâl o fewn 21 diwrnod drwy siec, gerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Nodwch y bydd tâl ychwanegol ar gyfer unrhyw daliadau hwyr.

Cyswllt

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Plaid Cymru am y tro cyntaf, angen eglurhad am unrhyw agwedd o'r Gynhadledd neu am y wybodaeth yn y pecyn yma, cysylltwch â Vici Jones, Trefnydd y Gynhadledd yn y Swyddfa Genedlaethol. Ei manylion cyswllt hi yw:

Tŷ Gwynfor, Plaid Cymru, Marine Chambers, Cwrt Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Tel: 02920 475921 **E-bost:** vicijones@plaidcymru.org

Cyfradd taliadau

I archebu stondinau, arddangosfeydd a chyfarfodydd ymylol, seilir y taliadau ar raddfa lithr yn dibynnu ar y math o sefydliad sy'n archebu. Dyma hwy:

- **Cyfradd lawn:** Sefydliadau masnachol / Cyrff Sector Cyhoeddus / Asiantaethau'r Llywodraeth
- **Cyfradd ostyngol:** Cymdeithasau Proffesiynol / Undebau Llafur / Elusennau Cofrestredig (gyda throsiant blynyddol o £250,000 neu fwy)
- **Cyfradd is:** Grwpiau Cymunedol / Elusennau Cofrestredig (gyda throsiant blynyddol o lai na £250,000)

- Nid yw'r gyfradd lithr yn gymwys i Becynnau Prif Gyfarfodydd Ymylol.

Llawlyfr y Gynhadledd

Llawlyfr y Gynhadledd yw'r canllaw cynhwysfawr i'r holl wybodaeth y bydd ar gynrychiolydd ei angen am ddigwyddiadau ymylol a stondinau arddangos tra bydd yn y Gynhadledd.

Bydd copïau o lawlyfr y Gynhadledd yn cael eu dosbarthu i arddangoswyr, cynrychiolwyr y cyfryngau, y sawl sy'n cynnal cyfarfodydd ymylol a sylwedyddion rhyw wythnos cyn y Gynhadledd. Mae modd prynu copïau ychwanegol am £5 y copi.

Rhaglen Gymdeithasol

Ar ddiwedd y Gynhadledd bob dydd, gallwch ymlacio neu barhau i drafod materion y dydd yn un o'r digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gyda'r nos. Bydd tocynnau ar gyfer y rhain ar werth yn y Gynhadledd o Ddesg y Dderbynfa yn y Cyntedd, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Vici Jones.

Iau: Digwyddiad Cymdeithasol (ig)
Gwener: Cinio Mawreddog
Sadwrn: Noson Gomedi'r Rifíw

Nawdd masnachol a Phlaid Cymru

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn rheoleiddio rhoddion i sefydliadau sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y DG. Nid yw'r Ddeddf wedi ei bwriadu i effeithio ar berthynas fasnachol wirioneddol ac nid yw masnachu arferol yn dod dan unrhyw reoleiddio. Felly, ni fydd cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddisgrifir yma yn cael eu trin fel rhodd i Blaid Cymru ac nis cyhoeddir ar y gofrestr rhoddion i bleidiau gwleidyddol.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio

Nid yw unrhyw arian a dderbynnir gan Blaid Cymru fel rhan o gytundeb nawdd masnachol yn cael ei drin fel rhodd wleidyddol ac nid yw'r arwydd o gefnogaeth i'r Blaid na chanddi. Fodd bynnag, caiff pob sefydliad neu unigolyn a ddaeth i gytundeb masnachol gyda Phlaid Cymru eu henwi ar wahân i roddwyr er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Ceidw Plaid Cymru yr hawl i wrthod unrhyw gais am nawdd ac, ar unrhyw adeg, i dynnu cyfle am nawdd yn ôl. Ymhellach, ni all Plaid Cymru ac ni fydd yn cynnig cyfarfodydd gyda Gweinidogion, arweinyddiaeth y Blaid na phobl yn rhengoedd uchaf y Blaid yn gyfnewid am nawdd.

Hysbysebu

Anfonir Agenda'r Gynhadledd i'w hargraffu ar 24ain Gorffennaf - ni roddir ad-daliad am unrhyw hysbysebion sy'n cyrraedd wedi Gorffennaf 23ain.

Enwau a rhifau cyswllt y Gynhadledd a chefnogaeth

Gobeithio y bydd eich profiad o fod yng Nghynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011 yn gynhyrchiol a dymunol, ac y bydd y pecyn gwybodaeth hwn o help i leihau'r straen sy'n gysylltiedig fel arfer â digwyddiad o'r fath.

Os oes arnoch angen help pellach i drefnu eich digwyddiad, cysylltwch â'r canlynol:

Help gyda threfnu siaradwyr o'r Blaid i Gyfarfodydd Ymylol, cysylltwch â Vici Jones ar 02920 475921 neu e-bostiwch vicijones@plaidcymru.org

Help gyda materion y Wasg, cysylltwch â Morgan Lloyd a 02920 475931 neu e-bostiwch morganlloyd@plaidcymru.org

Help gyda materion Polisi cysylltwch â Cai Jones ar 02920 475928 neu e-bostiwch caijones@plaidcymru.org neu Lowri Jackson ar 02920 475926 neu e-bostiwch lowrijackson@plaidcymru.org

Lleoliad - Venue Cymru, Llandudno

Wedi'i lleoli ar benrhyn wedi'i hamgylchynu gan ddŵr ar dair ochr ac yng nghanol ysblander llethrau mynyddoedd Eryri, mae tref glan môr Fictoraidd Llandudno yn cynnig popeth y gallai ymwelydd neu gynrychiolydd Cynhadledd fod ei angen.

Mae Venue Cymru mewn safle arbennig ar lan y dŵr yn Llandudno gyda golygfeydd trawiadol o'r môr. Mae Venue Cymru yn un o'r lleoliadau gorau ar gyfer cynadleddau wedi'u rheoli'n broffesiynol.

Mae Llandudno yng nghanol arfordir y gogledd, ac y mae gwasanaeth trafnidiaeth dda ar gael i gyrraedd Venue Cymru. Mae ffordd ddeuol yr A55 yn cysylltu'r dref â'r M56 a'r M53 ac mae cysylltiadau bws a thrên da. Ewch i <http://conference.venuecymru.co.uk/home.php?/Area_and_Travel_Information/Travel_Planning> am fanylion trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Venue Cymru wedi'i ehangu'n ddiweddar i gynnwys cyfleusterau cynhadledd modern unswydd i rhwng 5 a 5000 o gynrychiolwyr. Mae amrywiaeth eang o ystafelloedd a gwasanaethau ar gael i ddigwyddiadau a chyfarfodydd o bob maint.

Sut i ddod o hyd i Venue Cymru



Mewn car: Mae trafforddtua 3 milltir oddi ar ffordd yr A55. Os ydych yn teithio o'r Gogledd a'r Dwyrain dilynwch yr arwyddion ar gyfer yr M56 i'r Gorllewin i Gaer a Gogledd Cymru. Yna dilynwch yr A55 i'r gorllewin (Conwy). Dewch oddi ar yr A55 ger arwydd Llandudno a dilynwch y briffordd i ganol y dref ac fe welwch Venue Cymru ar y Promenâd.

Ar y trên: Mae gan Landudno ddwy orsaf drenau. Cyffordd Llandudno yw'r brif orsaf ar linell Caergybi i Lundain Euston. Mae'r orsaf tua 3 milltir y tu allan i ganol y dref. Mae hefyd gan Landudno orsaf cangen leol wedi'i lleoli yng nghanol y dref, a gellir cerdded i'r theatr o'r orsaf yma. Mae gwasanaeth trên rheolaidd rhwng y ddwy orsaf. Am fwy o wybodaeth ac amserlenni ewch i www.thetrainline.com <http://www.thetrainline.com/>

Ar fws: Mae National Express yn darparu gwasanaeth bws i Landudno: am fwy o fanylion ewch i'w gwefan - **www.gobycoach.com**

Parcio a Thacsis: Mae gan Venue Cymru faes parcio talu ac arddangos mawr yng nghefn yr adeilad. I weld y costau parcio ewch i'r adran parcio ar y wefan - www.venuecymru.co.uk . Mae man casglu / tacsi penodedig y tu allan i Venue Cymru ar y promenâd.

Rhesel Feiciau: Mae rhesel feiciau ar gael y tu allan i Venue Cymru ar ochr y promenâd ger mynedfa cyntedd y theatr.

Stondinau Arddangos

Mae gan lawer o sefydliadau arddangosfa neu stondin yn y Gynhadledd. Caiff y cynrychiolwyr eu hannog – trwy gynllun cymhelliant tocyn triw – i ymweld â'r stondinau, a threfnir i Aelodau Etholedig hefyd ymweld â stondinau unigol i gyfarfod a chyfarch ac i drafod materion polisi.

Eleni, bydd yr **HOLL** stondinau yn yr **UN LLE**. Bydd yr ystafell helaeth yn fan cyfarfod i gynrychiolwyr a chaiff ei defnyddio hefyd fel siop goffi, felly mae'n debyg o fod yn brysur iawn.

Nodwch

Gan y bydd Dydd Iau'r Gynhadledd yn canolbwyntio ar sesiynau trafod, dadleuon a cyfarfodydd ymylol yn unig, fe fydd stondinau arddangos ar gael ar dydd Gwener a Sadwrn y Gynhadledd. Mae croeso i arddangoswyr fynychu'r sesiynau Dydd Iau fel Sylwebyddion Arbennig.

Pris

Mae'r prisiau yn amrywio o £400 i £650.

Fe gewch y gofod, bwrdd, 2 gadair a phwynt pwer, (os oes ei angen).

Beth sydd wedi ei gynnwys yn y pris?

- 2x Docyn Sylwebydd Arbennig
- 2x Lawlyfr y Gynhadledd
- Eich rhestru fel Arddangosydd yn Llawlyfr y Gynhadledd (os cawn ef cyn Gorffennaf 20. Rhowch eich logo a pharagraff byr am eich sefydliad)
- Mae tocynnau ychwanegol ar gael i arddangoswyr am bris is o £80 yr un.

Hefyd.....

Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arbennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

Amseroedd gosod a mynediad

Gall arddangoswyr ddod i'r lleoliad o 8.00yb ymlaen ar ddydd Gwener 9 Medi. Mae disgwyl i chi fod yn barod ar gyfer busnes erbyn 10.00yb. Os na fedrwch fod yn barod ar gyfer yr amser hwn, cofiwch roi gwybod i ni ac fe geisiwn wneud trefniadau eraill.Medrwch ddechrau tynnu'r stondinau i lawr wedi 16.00pm ar ddydd Sadwrn 10 Medi a dylech fod wedi gorffen erbyn 18.00yp.

*** Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Ffurflen Archebu Arddangosfa yng Nghynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Rhif Elusen gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
E-bost	
Sylwebydd 1 (am ddim)	
Sylwebydd 2 (am ddim)	

Nodwch enwau unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un)……

……

Masnachol / Llywodraeth / Cyrff Cyhoeddus £650 □

Cymdeithasau Proffesiynol / Undebau Llafur / Elusennau Cofrestredig £550 □

Grwpiau Cymunedol / Elusennau Cofrestredig (Gyda throsiant blynyddol dan £250,000) £400 □

(Ticiwch a rhoi'r symiau yn ôl y galw)

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn dydd Llun, 11eg Gorffennaf 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac y caiff hyn ei ychwanegu. Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

□ Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atynt.

Cynnal Cyfarfod Ymylol

Cyfarfod Ymylol, efallai, yw'r dull mwyaf effeithiol o gyfleu neges sefydliad i gynrychiolwyr y Gynhadledd gan ei fod yn cynnwys siaradwyr dylanwadol ac yn dwyn y cynrychiolwyr i mewn i ddadleuon a thrafodaeth. Mae modd cynnal cyfarfodydd ymylol ar unrhyw bwnc a ddewisir gan y sefydliad sy'n cynnal y cyfarfod sydd yn gwahodd siaradwyr, fel arfer Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd Ewrop Plaid Cymru i drafod pwnc. Gall y sawl sy'n cynnal gael mwy o bobl i mewn trwy gymryd mwy o le hysbysebu.

Arlwyo

I drefnu lluniaeth e-bostiwch conferences@venuecymru.co.uk neu ffoniwch 01492 879771.

Pwysig

Rhaid archebu holl ddigwyddiadau Cynhadledd Plaid Cymru trwy Bencadlys Plaid Cymru. Ni chaiff unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd yn cynnal digwyddiad ymylol answyddogol hysbysebu'r digwyddiad yn Llawlyfr y Gynhadledd a chânt eu hatal rhag dosbarthu deunydd hysbysebu yn unrhyw rai o leoliadau'r Gynhadledd.

Pris

Mae'r prisiau yn amrywio o £350 i £650.

Cyfieithu

Bydd Plaid Cymru yn dod i gysylltiad â chi os byddwch eisiau cyfleusterau cyfieithu. Sylwer: bydd cost ychwanegol am gyfieithu, nad yw wedi ei gynnwys ym mhris y cyfarfod.

Beth sydd wedi ei gynnwys yn y pris?

Fe gewch leoliad Cyfarfod Ymylol gyda bwrdd uchaf a seddi ar ddull theatr.

- 2x Docyn Sylwebydd Arbennig
- 2x Lawlyfr y Gynhadledd
- Rhestru'r Cyfarfod Ymylol yn Llawlyfr y Gynhadledd (rhowch eich logo a pharagraff byr am eich sefydliad/digwyddiad)
- Mae tocynnau ychwanegol ar gael i'r sawl sy'n cynnal cyfarfod ymylol am gyfradd is o £80 yr un.

Hefyd.....

Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arebennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

***Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Ffurflen Archebu Cyfarfod Ymylol yng Nghynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Rhif Elusen gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
E-bost	
Sylwebydd 1 (am ddim)	
Sylwebydd 2 (am ddim)	

Nodwch enwau unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un) .....

.....

Sylwch na fydd unrhyw gyfarfodydd amser cinio dydd Iau.

Dewis o Amser: 12.30yp† 4.30yp†

Ticiwch yn ôl y galw:	**Iau**	**Gwener**	**Sadwrn**
Masnachol / LLywodraeth / Cyrff Cyhoeddus	† £550	† £650	† £600
Cymdeithasau Proffesiynol / Undebau Llafur /Elusennau	† £400	† £550	† £500
Grwpiau Cymunedol /Elusennau Cofrestredig (Elusennau gyda throsiant blynyddol is na £250,000)	† £350	† £450	† £400

Cyfieithu

Ticiwch os carech fwy o wybodaeth am gyfieithu:†

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn dydd Gwener, 11 Gorffennaf 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac y caiff hyn ei ychwanegu. Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

† Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atynt.

Cynnal Prif Gyfarfod Ymylol

Y Prif Gyfarfodydd Ymylol fydd y cyfarfodydd mwyaf poblogaidd yng Nghynhadledd Plaid Cymru, ar yr adegau ac yn y lleoliadau gorau, gydag anerchiadau gan rai o'n llefarwyr blaenllaw. Ac i chi, y fantais fydd, unwaith i chi archebu, y medrwch orffwys a gadael y gwaith i ni! Bydd ein tîm profiadol o staff y Gynhadledd yn gwneud popeth fydd ei angen i greu digwyddiad llwyddiannus ac amlwg i chi. Byddwn yn sicrhau'r lleoliad, y siaradwyr ac yn darparu'r arlwyo a'r diodydd. Y cyfan mae'n rhaid i chi wneud yw gosod y teitl a phenderfynu a ydych eisiau cael siaradwr ategol a chadeirydd, neu a hoffech i ni wneud hynny drosoch. Y cyfarfodydd ymylol hyn fydd rhai mwyaf cofiadwy'r Gynhadledd.

Pris

Mae pris Prif Gyfarfod Ymylol wedi ei osod ar £2000. Nid oes modd trafod y pris hwn ac nid yw'n dod dan y raddfa lithr arferol.

Hefyd.....

- Byddwn yn cysylltu â chi i ddewis gwleidydd blaenllaw addas o Blaid Cymru i fod yn brif siaradwr yn eich prif gyfarfod ymylol. Mae'r archeb hefyd yn cynnwys:

- Aelod unswydd o staff Plaid Cymru i gydgordio a threfnu eich digwyddiad cyn y Gynhadledd.

- Aelod unswydd o staff Plaid Cymru i'ch helpu gyda'r digwyddiad ar y dydd.

- Bwffe a diodydd i'r cynrychiolwyr.

- 3 x Tocyn Sylwebydd Arbennig

- 3 x Tocyn i Ginio Mawreddog y Gynhadledd

- 3 x Llawlyfr y Gynhadledd

- Hysbyseb yng Nghyhoeddiad Plaid Cymru a chrybwyll yng ngohebiaeth y Gynhadledd.

- Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arebennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

***Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Ffurflen Archebu Prif Gyfarfod Ymylol Cynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Rhif Elusen gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
E-bost	
Sylwebydd 1 (am ddim)	
Sylwebydd 2 (am ddim)	
Sylwebydd 3 (am ddim)	

Nodwch enwau unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un).....

.....

Prif gyfarfod ymylol £2000

Dewis o Ddiwrnod: Gwener † Sadwrn†

Dewis o Amser: 12.30pm† 4.30pm†

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn 11eg Gorffennaf 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac y caiff hyn ei ychwanegu. Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

† Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atynt.

Cynnal Brecwast Busnes

Mae Brecwast Busnes yn ffordd effeithiol o gyfleu neges sefydliad i aelodau allweddol y Blaid gan ei fod yn golygu ymwneud ag aelodau dethol mewn awyrgylch fwy cartrefol. Mae modd cynnal Brecwast Busnes ar unrhyw bwnc o ddewis y sefydliad sy'n ei gynnal, ac fel arfer, maent yn gwahodd eraill, fel arfer yn Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad neu ASau ASE Plaid Cymru i drafod pwnc dros frecwast. Bydd y sawl sy'n cynnal yn darparu diodydd a bwyd, ond bydd tîm Cynhadledd Plaid Cymru yn falch o helpu gyda gwahodd unigolion i'r cyfarfod.

Amseroedd a lleoliadau

Mae gan Blaid Cymru ystafelloedd amrywiol ym mhrif leoliad y gynhadledd lle mae modd cynnal brecwast busnes. Yr amseroedd yw 8.30yb i 9.30yb ar ddydd Gwener neu dydd Sadwrn.

Arlwyo

I drefnu lluniaeth e-bostiwch conferences@venuecymru.co.uk neu ffoniwch 01492 879771

Pwysig

Rhaid archebu holl ddigwyddiadau Cynhadledd Plaid Cymru trwy Bencadlys Plaid Cymru. Ni chaiff unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd yn cynnal digwyddiad ymylol answyddogol hysbysebu'r digwyddiad yn Llawlyfr y Gynhadledd a chânt eu hatal rhag dosbarthu deunydd hysbysebu yn unrhyw rai o leoliadau'r Gynhadledd.

Pris

Mae'r prisiau yn amrywio o £300 i £450.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y pris?

Fe gewch leoliad y mae modd ei osod allan fel y mynnwch.

Mae eich archeb hefyd yn cynnwys:

- 2x Docyn Sylwebydd Arbennig
- 2x Lawlyfr y Gynhadledd
- Mae tocynnau ychwanegol ar gael ei ddeiliaid Brecwast Busnes am bris gostyngol o £80 yr un.

Hefyd.....

Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arebennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

***Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Ffurflen Archebu Brecwast Busnes Cynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Rhif Elusen gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
E-bost	
Sylwebydd 1 (am ddim)	
Sylwebydd 2 (am ddim)	

Nodwch enwau unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un)……

……

Dewis o Ddiwrnod (Gwener, Sadwrn)……

(Ticiwch a rhoi'r swm yn ôl y galw)

Masnachol / Llywodraeth / Cyrff Cyhoeddus † £450

Cymdeithasau Proffesiynol / Undebau Llafur / Elusennau † £350

Grwpiau Cymunedol / Elusennau Cofrestredig † £300
(Elusennau gyda throsiant blynyddol is na £250,000)

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn 11eg Gorffennaf 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW ac y caiff hyn ei ychwanegu. Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

† Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atyn

Hysbysebu yn y Gynhadledd

Os ydych yn cynnal cyfarfod ymylol, yn arddangos neu eisiau hybu eich ymgyrch neu eich sefydliad, cofiwch beidio â cholli'r cyfle i gyrraedd y cannoedd fydd yn dod i'r Gynhadledd cyn ac ar ôl y digwyddiad trwy fanteisio ar y cyfleoedd hysbysebu a hybu sydd ar gael.

Gall pob sefydliad, os ydynt yn dod i Gynhadledd Flynyddol Plaid Cymru ai peidio, wneud cais i hysbysebu yn Llawlyfr ein Cynhadledd.

Beth yw manteision hysbysebu?

Mae hysbysebu yn Llawlyfr y Gynhadledd yn rhoi cyfle i chi hybu eich sefydliad ac unrhyw ddigwyddiad neu arddangosfa yr ydych yn ei gynnal yn y Gynhadledd a'i ddwyn i sylw'r cannoedd o gynrychiolwyr, sylwedyddion, arddangoswyr, y sawl sy'n cynnal cyfarfodydd ymylol, ac aelodau'r cyfryngau sydd yn defnyddio Llawlyfr y Gynhadledd yn gyson bob dydd a thu hwnt.

Pris

Mae'r prisiau yn amrywio o £150 i £450 am hysbysebion du a gwyn, gyda hysbsyebion lliw llawn yn amrywio rhwng £450 a £650.

Dalen rydd	Hysb. Cyf. Ymylol	£150
¼ tudalen	Du a Gwyn	£250
½ tudalen	Du a Gwyn	£350
Tudalen lawn	Du a Gwyn	£450
½ tudalen tu mewn i'r clawr ôl	Lliw	£450
½ tudalen tu mewn i'r clawr blaen	Lliw	£450
Tudalen lawn tu mewn i'r clawr ôl	Lliw	£600
Tudalen lawn tu mewn i'r clawr blaen	Lliw	£600
Clawr ôl (Llawn)	Lliw	£650

Os oes gennych ddiddordeb mewn hysbysebu mewn man amlwg yn y lleoliad, cysyltlwch â Threfnydd y Gynhadledd, Vici Jones ar 02920 475921 neu ebostiwch vicijones@plaidcymru.org i drafod ymhellach.

Beth arall sydd wedi'i gynnwys yn y pris?

- 1 x Docyn Sylwebydd Arbennig
- 1 x Lawlyfr y Gynhadledd
- Mae tocynnau ychwanegol ar gael i hysbsyebwyr ar gyfradd ostyngol o £80 yr un.

Hefyd.....

Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arebennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

***Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Cynhadledd Flynyddol 2011 – Ffurflen Archebu Hysbyseb

Sefydliad	
Rhif Elusen Gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
Ebost	
Sylwebydd 1 (am ddim)	

Nodwch enwau unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un)

.....

.....

Ticiwch y blwch/blychau priodol

Dalen rydd	Hysb. Cyf. Ymylol	£150	
¼ tudalen	Du a Gwyn	£250	
½ tudalen	Du a Gwyn	£350	
Tudalen lawn	Du a Gwyn	£450	
½ tudalen tu mewn i'r clawr ôl	Lliw	£450	
½ tudalen tu mewn i'r clawr blaen	Lliw	£450	
Tudalen lawn tu mewn i'r clawr ôl	Lliw	£600	
Tudalen lawn tu mewn i'r clawr blaen	Lliw	£600	
Clawr ôl (Llawn)	Lliw	£650	

Y terfyn amser i gyflenwi celfwaith parod i'r camera yw 15fed Gorffennaf 2011.

Ceidw Plaid Cymru yr hawl i wrthod unrhyw gais.

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn dydd Gwener 11eg Gorffenaf 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac y caiff hyn ei ychwanegu . Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

† Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atynt.

Statws Sylwebydd Arbennig

Mae Plaid Cymru yn croesawu ymwelwyr o fyd busnes, diplomyddion, academyddion a'r Trydydd Sector i'r Gynhadledd.

Fel Sylwebydd Arbennig byddwch yn derbyn:

- Tocyn Sylwebydd Arbennig.
- Llawlyfr y Gynhadledd.
- Bydd rhyddid i chi fynd i ddigwyddiadau ymylol, sy'n golygu y cewch gyfle i ymwneud yn uniongyrchol â materion allweddol y dydd.

HEFYD……

Seminarau a Sesiynau i Sylwebyddion Arbennig yn Unig!

Cynhelir seminarau a sesiynau unswydd ar ddydd Iau y Gynhadledd i Sylwebyddion Arbennig. Cewch y manylion gyda llawlyfr y Gynhadledd cyn y Gynhadledd.

YN OGYSTAL…..

Gwahoddir Arddangoswyr, Cynhalwyr Cyfarfodydd Ymylol, hysbysebwyr a Sylwebyddion i dderbyniad preifat 'Clwb y Llywydd ac Aelodau Etholedig' yn ystod y Gynhadledd. Mae hyn yn dderbyniad blynyddol arebennig ac rydym yn ymestyn gwahoddiad i fudiadau am y tro cyntaf fel ffordd o ddiolch i chi am barhau i'n cefnogi. Mi fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

Efallai y bydd sylwebyddion yn dymuno cynnwys pwt am eu sefydliad yn Llawlyfr y Gynhadledd fel bod ein cynrychiolwyr yn gwybod eich bod yno. Os hoffech fwy o wybodaeth am hyn, cysylltwch â Vici Jones ar 0292 0475 921 neu e-bostiwch vicijones@plaidcymru.org

Cost Statws Sylwebydd Arbennig yw £150 am y Gynhadledd gyfan (3 diwrnod) ac mae'n cynnwys y cyfan o'r uchod. Fodd bynnag, po fwyaf o docynnau Sylwebyddion Arbennig y mae eich sefydliad yn eu prynu, mwyaf o ostyngiad a gewch. Dyma'r prisiau:

1 Tocyn Sylwebydd Arbennig: £150
2 Docyn Sylwebydd Arbennig: £275
3 Thocyn Sylwebydd Arbennig: £400
4 Tocyn Sylwebydd Arbennig: £500

Gostyngiad PAC

Os ydych yn aelod o Public Affairs Cymru sylwch fod gennych hawl i ostyngiad sylweddol. Pris tocyn sylwebydd arbennig i aelodau PAC yw £100. Nodwch nad ydy'r gostyngiadau uchod yn berthnasol i'r cynnig yma.

*Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.

Ffurflen Archebu Sylwebydd Arbennig Cynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Rhif Elusen Gofrestredig	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif Archeb Bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
Ebost	

Enw Sylwebydd 1 (£150)….....
Enw Sylwebydd 2 (£275).....
Enw Sylwebydd 3 (£400).....
Enw Sylwebydd 3 (£500).....

Nodwch unrhyw Sylwebyddion ychwanegol (£80 yr un)

.....

Nodwch os ydych yn aelod o Public Affairs Cymru a bod gennych felly hawl i ostyngiad PAC (£100 yr un)

……..

Ceidw Plaid Cymru yr hawl i wrthod unrhyw gais.

Eich tâl

Rhaid i ni dderbyn y ffurflen archebu hon erbyn 2 Awst 2011. A fyddwch cystal â sylwi nad yw'r prisiau yn cynnwys TAW, ac y caiff hyn ei ychwanegu. Cewch anfoneb yn syth wedi i chi archebu. Rhaid derbyn tâl o fewn 21 diwrnod trwy siec, cerdyn credyd neu drosglwyddiad BACS. Sylwch y codir tâl ychwanegol am unrhyw daliadau hwyr.

☐ Yr wyf wedi darllen y Telerau a'r Amodau a nodwyd ym Mhecyn Gwybodaeth y Gynhadledd a chytunaf i gadw atynt.

Cinio Mawreddog Cynhadledd Flynyddol 2011

Mae Cinio Mawreddog y Gynhadledd Flynyddol yn ddigwyddiad o bwys sydd yn denu rhwng 150 a 200 gwestai bob blwyddyn, ac yn eu plith, brif ffigyrau'r Blaid, Cynghorwyr, ACau, ASau, ASE, diplomyddion, busnesau a chyrff allanol, a llawer mwy.

Eleni, cynhelir y cinio yn Venue Cymru ar nos Wener 9fed Medi am 7.30pm. Manylion pellach i'w cadarnhau.

Fel erioed, bydd y noson yn llawn digwyddiadau gyda, siaradwr gwadd / adloniant, raffl, a chinio 3-chwrs.

SUT I FYNYCHU

£55 yw pris y tocyn, sydd yn cynnwys derbyniad diodydd wrth gyrraedd, cinio 3 chwrs, adloniant a mwy. A fyddwch cystal â nodi ar eich ffurflen archebu os oes gan unrhyw rai o'ch gwesteion anghenion deietegol arbennig.

Gostyngiad PAC

Os ydych yn aelod o Public Affairs Cymru sylwch fod gennych hawl i ostyngiad sylweddol. Pris tocyn cinio i aelodau PAC yw £45.

HEFYD.....

Mae hefyd yn bosibl ENWI bwrdd yn y cinio. Mae hyn yn costio **£800** ac mae'n cynnwys 10 x tocyn cinio, hysbyseb am ddim yn Llawlyfr y Gynhadledd, 2 x docyn Sylwebydd Arbennig i'r Gynhadledd, gwin am ddim ar eich bwrdd, gair o ddiolch gan un o ffigyrau amlwg y Blaid yn y cinio, a gwarant y bydd o leiaf 2 o ffigyrau pwysig y Blaid ar eich bwrdd (gall trefnydd y Gynhadledd drafod hyn gyda chi a'i drefnu ar eich rhan os mynnwch).

** Os oes gennych ddiddordeb mewn noddi cinio'r Gynhadledd neu'r derbyniad diodydd cyn y cinio, ewch i'r adran ar gyfleoedd nawdd, ar dudalen 19.*

*** Archebwch trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen gyferbyn.**

Ffurflen Archebu Cinio Mawreddog Cynhadledd Flynyddol 2011

Sefydliad	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad Anfonebu (os yn wahanol)	
Rhif archeb bwrcasu	
Cyswllt	
Teliffon	
Symudol	
E-bost	

Ticiwch lle sy'n briodol

† Hoffwn_____ tocyn i'r Cinio Mawreddog (£55 yr un)

Neu

† Fe hoffwn ENWI bwrdd o 10 yng nghinio'r Gynhadledd (£800)

Nodwch os ydych yn aelod o Public Affairs Cymru a bod gennych felly hawl i ostyngiad PAC (£45 yr un)

……

A fyddwch cystal â nodi enwau eich gwesteion ac a oes ganddynt unrhyw anghenion deitegol (os na fedrwch enwi eich holl westeion yr adeg hon, nodwch 'i'w cadarnhau'). Os ydych yn noddi bwrdd, a fyddwch cystal hefyd â nodi enwau eich gwesteion ynghyd â'r aelodau etholedig y dymunwch eich gwahodd at eich bwrdd.

Enw(au)	Gofynion Dietegol
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____
_____	_____

Cyfleoedd Nawdd Cynhadledd 2011

Bydd noddi digwyddiad yn y Gynhadledd yn caniatáu i'ch sefydliad gyfathrebu'n uniongyrchol â'r sawl sydd yn y Gynhadledd, a hynny mewn modd wedi ei dargedu. Dyma rai o'r ffyrdd y gall eich sefydliad adeiladu ar eu brand yng Nghynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011:

Cinio Mawreddog - Nos Wener

Croesewir gan Ieuan Wyn Jones AC (Arweinydd) gyda siaradwr gwadd arbennig ac adloniant.

Mae nawdd yn cynnwys:

- Lle i arddangos deunydd hybu (baneri, pop-ups, taflenni)
- 10 munud i annerch y derbyniad gydag araith
- Diolch gan Arweinydd y Blaid
- 2 docyn i Ginio'r Gynhadledd ar y bwrdd uchaf
- 2 docyn Sylwebydd Arbennig i'r Gynhadledd
- 1 hysbyseb tudalen lawn yn Llawlyfr y Gynhadledd
- Logo'r sefydliad wedi ei argraffu ar y bwydlenni
- Aelod unswydd o staff Plaid Cymru i helpu i drefnu'r digwyddiad allweddol hwn

Derbyniad diodydd cyn y cinio - Nos Wener

Croesewir gan Lywydd y Blaid, Jill Evans ASE

Mae nawdd yn cynnwys:

- Lle i arddangos deunydd hybu (baneri, pop-ups, taflenni)
- 5 munud i annerch y derbyniad gydag araith
- Diolch gan Lywydd y Blaid
- Byddwn yn cyflenwi gwin i'ch gwesteion
- 2 docyn i Ginio'r Gynhadledd
- 2 docyn Sylwebydd Arbennig

Derbyniad Clwb y Llywydd & Aelodau Etholedig

Digwyddiad blynyddol pwysig yr Aelodau Etholedig a gynhelir yn ystod y Gynhadledd. Mae'r derbyniad yn denu nifer o westeion, ac yn eu plith, Aelodau Etholedig y Blaid, Cynghorwyr ac aelodau blaenllaw. Dyma gyfle gwych i ymwneud â'r aelodau hynny a chryfhau eich brand.

Croesewir gan un o ffigyrau amlwg y Blaid (ig)

Mae nawdd yn cynnwys:

- Lle i arddnagos deunydd hysbysebu (baneri, pop-ups, taflenni)
- 5 munud i annerch y derbyniad gydag araith
- Diolch gan un o aelodau blaenllaw'r Blaid
- Byddwn yn cyflenwi bwyd a diod i'ch gwesteion
- Byddwn yn gyfrifol am yr holl wahoddiadau a'r holl drefniadau eraill
- Taflen am ddim yng ngohebiaeth y Gynhadledd
- 2 x Docyn Sylwebydd Arbennig

I ddysgu mwy am y cyfleoedd nawdd sydd ar gael, neu i wybod mwy am y digwyddiadau hyn, ffoniwch Vici Jones ar 02920 475921 neu e-bostiwch vicijones@plaidcymru.org

Telerau ac Amodau

DIFFINIADAU
Yn y Telerau a'r Amodau hyn, golyga "Trefnydd" Plaid Cymru- the Party of Wales. Y "fangre" yw'r ganolfan gynadledda a ddefnyddir gan y Trefnydd at ddibenion Arddangos. "Perchenogion y Neuadd" yw'r Ganolfan Gynadledda. Golyga "Awdurdodau" yr awdurdod lleol, yr awdurdod tân neu unrhyw gorff neu unigolyn arall perthnasol sydd ag awdurdod dros y fangre.

DIOGELWCH AC YSWIRIANT
Mae pob Arddangosydd yn gyfrifol am ddiogelwch ac yswiriant ei stondin a'i h/arddangosfeydd ei hun, ac am yswiriant ei g/weithwyr ei hun. Ni fydd y Trefnydd na Pherchenogion y Neuadd dan unrhyw amgylchiadau yn derbyn cyfrifoldeb am golled neu ddifrod sut bynnag y digwydd.

CYNLLUN ARDDANGOSFA
Ceidw'r Trefnydd yr hawl i newid cynllun yr arddangosfa ar unrhyw adeg mewn unrhyw fodd.

YSWIRIANT
Bydd Arddangoswyr yn gyfrifol am drefnu eu hyswiriant eu hunain a byddant yn rhyddarbed y Trefnydd parthed (a) unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw eiddo sydd biau'r Trefnydd, (b) pob cais a hawliad gan drydydd partïon (gan gynnwys asiantwyr y Trefnydd a'r Ganolfan Gynadledda, Arddangoswyr eraill a'u hasiantwyr, ac aelodau'r cyhoedd) parthed anafiadau personol neu golled neu ddifrod i eiddo, a achoswyd gan neu a ddigwyddodd trwy gyfrwng yr Arddangosydd, neu unrhyw rai o'i g/weithwyr neu asiantwyr neu eiddo, yn deillio o neu o ganlyniad i'r ffaith ei f/bod ym meddiant y stondin neu yn arddangos eitem neu broses neu beth o unrhyw fath ym mha bynnag fodd. Bydd yr Arddangosydd yn ystyried pob risg o bob math parthed unrhyw gyfryw risg. Bydd yr Arddangoswyr yn gwneud iawn am unrhyw ddifrod a wnaed ganddi/o, neu asiantwyr i'r fangre, unrhyw ddodrefn neu ffitiad yno a ddifrodwyd gan dân a achoswyd ar ei safle. Ceidw'r Trefnydd yr hawl i ofyn am gael gweld unrhyw bolisi yswiriant cyn yr arddangosfa.

PLATIAU ENWAU'R ARDDANGOSWYR
Ni chaniateir unrhyw blatiau enwau, arwyddbyst na hysbysfyrddau o eiddo'r arddangosydd y tu allan i faes y stondin a ddyrannwyd heb ganiatad.

ORIAU AGOR
Rhaid i stondinau fod ar agor i fusnes yn unol â'r oriau agor dyddiol a gyhoeddwyd am yr Arddangosfa a rhaid iddynt aros ar agor yn gyson tan yr amser cau.

GOSOD ARDDANGOSIADAU
Pan fydd unrhyw nwyddau'n cael eu cludo i fangre'r Arddangosfa, rhaid i gynrychiolydd yr Arddangosydd fod gyda hwy neu eu derbyn. Mae angen rhybudd ymlaen llaw am unrhyw eitemau mawr o gyfarpar.

CLIRIO ARDDANGOSIADAU
Ni cheir symud unrhyw stondin, arddangosyn na deunydd cyn yr amser cau swyddogol heb ganiatâd y Trefnydd. Os na fydd yr Arddangosydd yn clirio ei h/arddangosiadau erbyn yr amser a nodwyd, bydd yr Arddangosydd yn gorfod talu tâl am bob awr dros amser yr erys y fan heb ei chlirio, ac os metha'r Arddangosydd a gwneud y cyfryw waith, gall y Trefnydd drefnu i'r gwaith gael ei wneud, a chodir tâl wedyn. Bydd y tâl yn cyfateb i'r costau a ddaeth i ran y Trefnydd o ganlyniad i fethiant i gydymffurfio â'r Amodau hyn.

ADNABOD POBL
Caiff bathodynnau arddangoswyr eu dyrannu: nid yw'r rhain yn drosglwyddadwy, a dylid eu gwisgo bob amser

FFITIO STONDINAU
a) Dylai unrhyw arddangoswyr sy'n dod ag arddangosyn / ffitiad arddangos uwch na 3 metr, neu drymach na'r arfer, holi'r Trefnyddion a yw hyn yn iawn.
b) Ni chaiff unrhyw ran o unrhyw stondin ordoi unrhyw ale na mynd dros y ffiniau a nodwyd i'r stondin. Ni ddylai arddangoswyr ddangos eu nwyddau fel eu bod, ym marn y Trefnydd, yn tarfu ar y goleuni neu'n rhwystro'r olygfa ar hyd mannau agored neu ale, neu yn peri anhwylustod i Arddangoswyr eraill.
c) Ni ddylid dod â phetrol, gwirod na gwirod, hylif neu anwedd peryglus arall i'r fangre, oni chafwyd caniatâd ysgrifenedig y Trefnydd ymlaen llaw.
d) Rhaid i bob deunydd ar gyfer codi, addurno, rhoi ar neu orchuddio stondinau fod yn anfflamadwy neu wedi eu trwytho mewn toddiant gwrth-dân mewn modd sy'n cydymffurfio â gofynion yr awdurdodau.
e) Rhaid symud cesys, cartonau a phecynnau gwag o'r fangre i'w storio, neu yn ystod cyfnod mynediad at yr arddangosfa, eu gadael yn yr ale i staff y Trefnydd i'w clirio.

YMDDYGIAD ARDDANGOSWYR
Bydd unrhyw Arddangosydd fydd â chyfarpar sy'n rhedeg system sain o unrhyw fath yn ei redeg ar sain isel yn unig, ac ar gais y Trefnydd, bydd yn rhoi'r gorau i'w chwarae. Felly hefyd os ystyrir eu bod yn tarfu'n gyson ar arddangoswyr eraill neu yn eu poeni.

CYFFREDINOL
a) Mae pob Arddangosydd wedi ei rwymo gan y Telerau a'r Amodau hyn ym mhob ystyr, a hefyd maent wedi eu rhwymo gan Reolau, Amodau a Rheoliadau perchenogion y Neuadd, yn cydymffurfio â hwy ac fe dybir eu bod yn llwyr gyfarwydd â hwy.
b) Rhaid i bob Arddangosydd dynnu sylw pob asiant neu gontractwr a gyflogir ganddi/o at ddarpariaethau'r Telerau a'r Amodau hyn.
c) Rhaid cyflwyno unrhyw gofyn yn ysgrifenedig at Drefnydd yr Arddangosfeydd neu gynrychiolydd y Trefnydd o fewn saith diwrnod i unrhyw Ddigwyddiad Ymylol. Ni chaiff c_yn a wneir mewn unrhyw ddull arall ei ystyried.
d) Ceidw'r Trefnydd yr hawl i eithrio, ychwanegu at neu newid unrhyw un o'r Telerau a'r Amodau hyn er budd y Cyfarfodydd Ymylol naill ai yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig.

TREFN DALU
Mae'r cyfanswm sy'n ddyledus i'w dalu i'r Trefnyddion o fewn 21 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb.

CANSLO ARCHEBION
Codir ffi ganslo o 50% ar bob archeb Arddangosydd / Cyfarfod Ymylol / Sylwedydd Gweithredol / Noddwr gael ei ganslo lle ceir rhybudd am y canslo cyn 1af Medi . Os bydd unrhyw beth yn cael ei ganslo wedi'r dyddiad hwn, rhaid talu'r swm yn llawn. Os gwrthodir cais gan y Trefnyddion, ad-delir unrhyw arian yn llawn i'r ymgeisydd.

CANSLO'R DIGWYDDIAD
Os, am unrhyw reswm, nad oes modd agor y digwyddiadau ymylol na'u cynnal ar y safle ar y dyddiadau a nodwyd, gall y Trefnwyr yn ôl eu doethineb wneud y canlynol: -
1 a) gohirio agor yr Arddangosfa tan ddyddiad sy'n ymddangos iddynt hwy yn rhesymol dan amgylchiadau'r achos; neu
2 b) dod o hyd i fangre sydd yn eu barn hwy yn addas a chynnal yr Arddangosfa ar y dyddiad a nodwyd yn wreiddiol; neu
3 c) datgan y rhoddwyd gorau i'r Digwyddiadau Ymylol.